

Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Ffôn: 01978 269580
Ffacs: 01978 269589



Ysgol Bro Alun
Delamere Avenue
Gwersyllt
Wrexham
LL11 4NG
Tel: 01978 269580
Fax: 01978 269589

YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA
Pennaeth Head Teacher
Safle gwe / Website: www.ysgolbroalun.cymru
E-bost/E-mail: mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Hydref 7fed 2020

Nosweithiau rhieni

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Fel arfer, yr adeg yma o'r flwyddyn byddwn yn gadael i chi wybod am ein nosweithiau rhieni, sy'n cael eu cynnal tua diwedd yr hanner tymor, er mwyn trafod efo chi sut mae'ch plentyn wedi setlo yn y ei ddsbarth / dosbarth newydd.

Yn draddodiadol, mae'r nosweithiau hyn yn cael eu cynnal yn yr ysgol gyda rhieni yn dod i mewn i drafod am 10 munud efo'r athro / athrawes dosbarth.

Oherwydd y cyfyngiadau presenol yn ymwneud â Covid-19, rydym wedi cael ein cynghori i beidio cynnal nosweithiau rhieni yn eu fformat traddodiadol. Yn dilyn trafod ac edrych ar wahanol opsiynau, rydym wedi penderfynu eu cynnal y tro yma drwy alwadau ffôn fydd yn cael eu gwneud ar ôl ysgol ar ddyddiau penodol. Dyma fydd y drefn:

- Yn fuan, byddwch yn derbyn linc i holiadur electronig i'w gwblhau, i ddewis noson yr hoffech dderbyn galwad gan athro / athrawes eich plentyn.
- Bydd hefyd angen nodi iaith yr alwad a'r rhif ffôn i ni ei ffonio
- Bydd angen i chi gwblhau yr holiadur erbyn **3:00pm, dydd Llun, Hydref 12fed**
- **Cwblhewch un holiadur ar gyfer un plentyn, peidiwch a cheisio rhoi brodyr a chwiorydd ar yr un holiadur.**
- Erbyn diwedd wythnos nesaf, byddwch yn derbyn cadarnhad o noswaith ac amser yr alwad ffôn
- Oherwydd sut mae'r nosweithiau yn cael eu trefnu a nifer y llinellau ffôn sydd ar gael yn arwain at athrawon yn gorfod gwneud galwadau ar wahanol nosweithiau, mae'n bosib na fyddwch yn derbyn galwadau am frodyr a chwiorydd ar yr un noson.
- Bydd pob galwad yn para dim mwy na 8 munud o hyd, gyda 2 funud ar ddiwedd yr alwad i'r athro / athrawes wneud nodiadau a pharatoi ar gyfer yr alwad nesaf.
- Bydd yr athro / athrawes yn rhoi galwad ar ddechrau'r slot amser. Os na cheir ateb, bydd yn trio eto o fewn ychydig funudau. Os na cheir ateb yr ail dro, ni fydd yn trio am y trydydd tro.

- Os gwelwch yn dda a wnewch chi beidio ffonio'r ysgol yn ôl os ydech yn methu'r alwad gyntaf rhag 'blocio' llinell ffôn; yn hytrach arhoswch tan yr ail alwad.
- Os ydech yn methu'r ail alwad, bydd angen ail drefnu galwad arall ar noson wahanol.
- Pan fyddwch yn derbyn yr alwad, bydd unai rhif yr ysgol neu 'No Caller ID / Caller withheld' yn ymddangos ar eich ffôn

Rydym yn gobeithio wrth gwrs mai unwaith y bydd rhaid i ni ddefnyddio'r system yma ac y byddwn ni'n gallu eich croesawu i'r ysgol erbyn y noson rieni nesaf o gwmpas adeg gwyliau'r Pasg.

Gyda diolch o flaenllaw am eich cydweithrediad,

Osian Jones